**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-06-02(p.7)**

**Dyddiad** **Dydd Mercher 27 Chwefror 2002**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Strategaeth Clefydau Heintus i Loegr - *"Getting Ahead of the Curve"***

## Pwrpas

1. Pwrpas y papur hwn yw hysbysu Aelodau'r Pwyllgor o gynnig a wnaed gan yr Adran Iechyd, a geir mewn strategaeth gan Syr Liam Donaldson, y Prif Swyddog Meddygol (Lloegr), ac ymateb arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Crynodeb/Argymhellion

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur a'r amserlen ar gyfer rhagor o waith ac ymgynghori.

## Amseru

3. Mae cynlluniau'r Adran Iechyd ar gyfer cynigion rheoliadol yn golygu y bydd angen i Gymru fod â safbwynt ar gymryd rhan yn y corff newydd erbyn diwedd Ebrill.

## Cefndir

4. Mae'r strategaeth yn cynnig sefydlu corff newydd – Asiantaeth Genedlaethol Rheoli Heintiau a Diogelu Iechyd (NICHPA). Bydd y corff newydd hwn yn tynnu ynghyd Wasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd (PHLS), Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol (NRPB) a'r Ffocws Cenedlaethol ar Achosion Cemegol. Bwriedir tynnu swyddogaethau'r Ganolfan Microbioleg Gymhwysol ac Ymchwil (CAMR) yn Porton Down i mewn hefyd.

5. Dyma fyddai swyddogaethau'r gwasanaeth:

- Darparu gwybodaeth, arbenigedd a chyngor ar glefydau heintus, a pheryglon cemegol ac ymbelydrol;
- Cyd-drefnu'r holl systemau goruchwylio sy'n berthnasol i'r gwaith o atal a rheoli clefydau heintus yn Lloegr;
- Datblygu a chynnal system oruchwylio i ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag peryglon cemegol ac ymbelydrol;
- Nodi bylchau ym maes goruchwylio a datblygu systemau gwybodaeth i'w cau;
- Pennu safonau a chanllawiau i broffesiynolion iechyd a labordai roi gwybod am heintiau a'u cofnodi;
- Argymell newidiadau i'r rhestr statudol o glefydau hysbysadwy a sefydlu meini prawf modern ar

gyfer diffiniadau achos;

- Cydweithio â'r Comisiwn Gwella Iechyd (CHI) lle ceir diffygion difrifol o ran safonau rheoli heintiau mewn ysbytai, ym maes gofal sylfaenol neu ar safleoedd eraill o eiddo'r gwasanaeth iechyd;
- Cydweithio â'r GIG ac Awdurdodau Lleol i gyflwyno gwasanaeth diogelu iechyd a rheoli clefydau heintus;
- Ar y cyd â'r GIG ac Awdurdodau Lleol, ymchwilio i achosion o glefydau heintus, ac achosion cemegol ac ymbelydrol, a'u rheoli, drwy gydweithio â'r awdurdodau priodol;
- Ymateb i fygythion newydd, gan gynnwys terfysgaeth;
- Rhoi cyngor ar bolisi cenedlaethol a lleol mewn perthynas â'r gwaith o atal a rheoli clefydau heintus ac o ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag peryglon cemegol ac ymbelydrol;
- Comisiynu labordai microbioleg i ddarparu swyddogaethau iechyd cyhoeddus neu gyfeirio arbenigol;
- Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi cyngor ar faterion ym maes tocsicoleg gemegol mewn perthynas â gwenwyno clinigol ac achosion cemegol i ddarparu system gadarn, effeithlon sy'n diwallu anghenion y llywodraeth ganolog a'r GIG;
- Cyflwyno gwasanaethau technegol y cytunir arnynt;
- Rhoi cyngor i Gyfarwyddwr Ymchwilio a Datblygu'r GIG ar ddefnyddio'r gronfa ymchwilio ac arloesi newydd.

6. Mae'r ddogfen strategol yn cynnig dau ddatblygiad allweddol ochr yn ochr â'r Asiantaeth newydd, sef:

- Integreiddio Ymgynghorwyr ym maes Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC) yn yr Asiantaeth, gan ehangu eu swyddogaethau i swyddogion maes, er mwyn cwmpasu'r materion diogelu iechyd ehangach, gan gynnwys bygythion amgylcheddol. Y bwriad yw iddynt ddod yn rhan o'r gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer iechyd y cyhoedd.
- Rheoli labordai'r PHLS o fewn y GIG, gan adael nifer fach wedi'u dynodi'n labordai iechyd y cyhoedd.

7. Mater i Gadeirydd a Phrif Weithredwr yr Asiantaeth, pan y'u penodir, fydd trafod strwythur yr Asiantaeth newydd. Y cynllun yw sefydlu is-adrannau a rhoi cyfrifoldeb arbennig iddynt, e.e. is-adrannau brechlyn, diogelu rhag ymbelydredd, diogelu rhag peryglon cemegol, a gwasanaethau maes, labordai arbenigol a chyfeirio, ac is-adran ymateb brys (a fyddai'n cynnwys delio â'r elfen iechyd cyhoeddus o gynllunio a gwrthfesurau yn erbyn y bygythiad posibl yn sgil rhyddhau asiantau biolegol, cemegol neu radiolegol ar bwrpas).

8. Bydd yr Asiantaeth newydd yn atebol drwy'r bwrdd a'r Prif Weithredwr i'r Adran Iechyd ac adrannau iechyd eraill ar gyfer y DU (byddai gan Gymru rôl drwy'r Prif Swyddog Meddygol). Bydd yn atebol am gyflawni ei swyddogaeth, sef diogelu iechyd poblogaethau lleol yn Lloegr, drwy gytundebau diogelu iechyd gyda phob cyfarwyddwr rhanbarthol iechyd y cyhoedd gyda'r ymddiriedolaethau gofal sylfaenol (a'u cyfarwyddwyr iechyd cyhoeddus) a'r awdurdodau lleol yn naw rhanbarth Lloegr.

9. Mae'r strategaeth rheoli clefydau heintus a'r strwythurau a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer ei rhoi ar waith wedi'u llunio i ddiwallu anghenion Lloegr. Er hynny, mae yna rai manteision amlwg i'r DU gyfan ac mae materion yn y strategaeth sydd o ddiddordeb mawr i Gymru o ran y modd y bydd cyrff, megis PHLS ac NRPB, yn gweithredu fel cydrannau o'r asiantaeth newydd.

**Y Sefyllfa yng Nghymru.**

10. Mae Cymru eisoes wedi cyhoeddi Fframwaith ar gyfer Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r Fframwaith hwnnw i fod yn gynllun gweithredu a hynny drwy Bwyllgor Cymru dros Glefydau Trosglwyddadwy a'i is-bwyllgorau. Mae swyddogion y Cynulliad yn gweithio'n galed i ailstrwythuro GIG Cymru a'r gwasanaethau gofal sylfaenol, a gwnaed llawer o waith eisoes ar yr adolygiad ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

11. Mae'r sefyllfa wleidyddol yng Nghymru'n wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr o ran bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio fel gweinyddiaeth bartneriaeth a bod ei pherthynas â llywodraeth leol hefyd yn seiliedig ar egwyddorion partneriaeth.

12. Polisi penodol y Swyddfa Gymreig oedd gadael i labordai microbioleg y GIG ddod yn unedau a reolir gan y PHLS, os dyna'r dymuniad yn lleol. Yn yr 8 mlynedd ddiwethaf cynyddodd nifer y labordai PHLS o 4 i 8. Mae'r polisi hwn wedi parhau o dan y Cynulliad Cenedlaethol, gyda microbioleg Llanelli yn ymuno â PHLS yn 2001.

13. Corff ar gyfer Cymru a Lloegr yw'r PHLS ac mae gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau cyfarwyddo drosto. Rydym, ar y cyd a'r Adran Iechyd, yn noddi ac yn cyllido swyddogaeth iechyd y cyhoedd PHLS (ariennir y gweddill drwy Ymddiriedolaethau'r GIG). Mae NRPB yn gorff statudol y DU ac mae gan Lywodraeth y Cynulliad rai pwerau statudol drosto, gan gynnwys y pwer i wneud penodiadau a phwerau cyfarwyddo. Mae Cymru'n cyfrannu £18miliwn at gontract unigol ar gyfer Ffocws Cenedlaethol ar Achosion Cemegol (mae'r darparwr wedi'i leoli yng Nghymru).

14. Er bod rhaid ystyried y DU gyfan wrth wneud cynlluniau brys, yn arbennig o ran bygythiadau terfysgaeth, mae trefniadau gwahanol ar gyfer eu rhoi ar waith yng Nghymru. Ar ôl cael gwared ar yr awdurdodau iechyd yng Nghymru, caiff gwasanaeth iechyd y cyhoedd cenedlaethol ei sefydlu.

**Y camau arfaethedig**

15. Mae'n amlwg bod yn rhaid asesu swyddogaethau'r Asiantaeth a pha mor berthnasol ydynt i Gymru cyn gynted â phosibl. Bydd Cymru am sicrhau ei bod yn cael cymryd rhan allweddol yn y mwyafrif o swyddogaethau cenedlaethol (DU) arfaethedig yr Asiantaeth. Mae'n hanfodol ein bod yn dod i ddeall cynigion yr Adran Iechyd yn well, a hynny drwy gymryd rhan ym mhrosiect yr Adran Iechyd sy'n cynnwys arbenigwyr yng Nghymru.

**Cydymffurfio**

16. Ceir y pwerau cyffredinol mewn perthynas â gwella iechyd pobl Cymru yn Adran 1 y National Health Service Act 1977 [Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977]. Trosglwyddwyd y pwerau hyn i'r Cynulliad a'u dirprwyo i chi. O dan Adran 40 Deddf Llywodraeth Cymru 1998/Government of Wales Act 1998 caniateir i'r Cynulliad wneud unrhyw beth sy'n hwyluso'r gwaith o weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau swyddogol. Nid yw'n rhoi pwerau gweithredol ychwanegol i'r Cynulliad, ond mae'n caniatáu iddo wneud trefniadau sy'n ei helpu i weithredu ei rai presennol.

17. Mae'r NRPB yn awdurdod cyhoeddus a sefydlwyd gan y Radiological Protection Act 1970 [Deddf Amddiffyn Rhag Ymbelydredd 1970]. O dan y Ddeddf a'i chyfarwyddiadau dilynol gan weinidogion iechyd mae'n ofynnol i'r sefydliad roi cyngor ar faterion yn ymwneud ag effeithiau iechyd mewn perthynas ag ymbelydredd ïoneiddio ac anïoneiddio. Rhoddodd y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau/Transfer of Functions Order bwerau i'r Cynulliad mewn perthynas â swyddogaethau'r "Gweinidogion Iechyd" gan gyfarwyddo, o dan baragraff 13(5) Atodlen 1, y gall y Cynulliad arfer y swyddogaeth ar yr un pryd a'r Ysgrifennydd Gwladol.

18. Sefydlwyd y PHLS fel corff corfforaethol gan Ddeddf y GIG 1977. Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 5 a rhai o baragraffau Atodlen 3 Deddf 1977 eu trosglwyddo i'r Cynulliad. Ni throsglwyddwyd paragraffau 3, 11, 12, 16, 17 ac 18 o Atodlen 3 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (1999/672). Nid oes unrhyw faterion o reoleidd-dra na phriodoldeb yn y cyflwyniad hwn.

## Yr Amserlen ar gyfer cymryd penderfyniadau

| **Dyddiad** | **Digwyddiad** | **Gweithredu** | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|
| 8 Chwef | Cyfarfod Is-adrannol. Cyflwyniad i'r Gweinidog ar gyfer cymeradwyo'r broses | Cyflwyniad a phapur i'w nodi ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwybodaeth ar y camau nesaf. Cysylltiad cynnar â'r broses wleidyddol |
| 12 Chwef | Gweithdy Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd | Ymgynghori/ gweithdai | Derbyn sylwadau'r bobl yn y maes penodol hwnnw |
| 14 Chwef tan 28 Chwef | Ymgynghori â phwyllgorau statudol, cyrff proffesiynol a llywodraeth leol Cymru | Ymgynghori drwy'r post | Amlygu materion o ddiddordeb penodol |
| 28 Chwef tan ganol Mawrth | Ymgynghori â mwy o bobl ym maes Iechyd y cyhoedd, gan gynnwys y sector gwirfoddol | Ymgynghori mwy penodol a gweithdai | Derbyn mwy o sylwadau |
| Mawrth | Cyflwyniad i'r Gweinidog | Cyflwyniad a phapur ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gwasnaethau Cymdeithasol | Llywio i gyfeiriad gwleidyddol |

| | |
|---|---|
| Ebrill | Cynnig terfynol i’r Gweinidog. Llythyr at yr Adran Iechyd yn nodi’n bwriad |